WG35. 5. 187

# MARWNAD

I'R DIWEDDAR HEN DAD,

# JACOB THOMAS



BLAENOR FFYDDLON O EGLWYS BODRINGALLT,

## Yr hwn a fu farw Rhagfyr 17eg, 1906,

YN 84 MLWYDD OED.

## Claddwyd ef yn Mynwent y Groeswen Rhagfyr 21, 1906.

JACOB THOMAS: uwch ei weryd
  Tyr fy nghalon i fy ngrudd;
Dan gyffyrddiad siom ac adfyd
  Cryna tant fy nhelyn brudd.
Hawlia Hiraeth ddweud ei brofiad
  Wedi colli'i hawddgar wedd:—
Dim ond dagrau fedrant siarad
  Ar dywarchen werdd ei fedd.

Crwydro'n ol i Eglwys Elian,—
  Hen chwareule'i febyd pell,
Fyn fy awen leddf ei chyngan,
  Dan dywynion dyddiau gwell.
Tardd liliäu o adgofion
  Ar y llwybrau i Bentwyn;—
Dyry Serch ei wlithyn tirion
  Ar bob adgof, er ei fwyn.

Yn yr anedd dawel hono,
  Cyn i'r byd ddatguddio'i groes,
Cyn i'w galon onest deimlo
  Cyffyrddiadau drygau'i oes;—
Gwelodd swyn y weddi dlysaf
  Yn gweddnewid gwaetha'r byd;—
Erys hwnw yn ddianaf
  Yn ei goffa tlws o hyd.

Yno dysgodd adnod gyntaf
  Profiad, yn ngoleuni'r nef;
Yno bu'r cynghorion dwysaf
  Yn canllawio'i lwybrau ef.
Yno dysgodd beth oedd nerthoedd
  Dylanwadau bywyd mam,
Gadwai oreu ei blynyddoedd
  Ar allorau'r nef yn fflam.

Yno dysgodd fagu cryfder
  Yn awyrgylch glanaf Duw;
Yno syllodd i'r uchelder
  Lle mae gweddi'n ysbryd byw.
Yno plygodd dan gyfaredd
  Gweddi'i fam, a dagrau'i dâd;
Yno teimlodd y tangnefedd
  Grëa wanwyn o fwynhad.

Er na welsai ddydd Diwylliant
  Yn goleuo yn ei nen:
Ei wynfydedd a'i ogoniant
  Ydoedd tramwy i'r Groeswen.
Rhai cynefin a duwioldeb
  Fu'i gymdeithion cynar ef;
Pa sawl angel wyr am burdeb
  Cymru Fu, ar ffyrdd y nef?

Yn y capel lle bu cewri
  Preiffion Duw yn rhanu'u dawn;
Yn yr Eglwys fu'n tywynu
  Goleu'r Groes fugeilia'r grawn,
Ar y llecyn sanctaidd hwnw
  Ar ei wefus clywyd cri,
Am gael bwrw'i gryman gloew
  I gynhaeaf Calfari.

Blwyddyn rymus y Diwygiad
  Fu yn siglo Cymru gynt:
Mae ei hysbryd a'i dylanwad
  Eto'n cerdded ar ei hynt.
Dyna flwyddyn sydd yn aros
  Yn ei goffa'n benod fyw;
Dyna flwyddyn ddeil i ddangos
  Pa mor agos aeth at Dduw.

Aeth yn ddigon agos ato
  I anghofio'r byd a'i dwrdd;
Ac o rengau'r eglwys hono
  Ni chwenychai droi i ffwrdd.
Er i ymdaith y Deffroad
  Gadw'i yrfa'n dlos, bob cam;
Aeth drwy "fwlch yr Argyhoeddiad"
  Yn ngoleuni gweddi'i fam.

Dyna'r ysbryd fu'n ei dywys
  I'w gyfrinach dawel Ef;
Dyna'r ysbryd eto erys
  Gyda ni'n ysbrydiaeth gref.
Dyna'r ysbryd fu yn canu
  Salmau gobaith dan ei fron;—
Rhaid i enaid hawddgar dyfu
  Ar randiroedd gwlithog hon.

Wedi dringo deg o flwyddi
  Yn ei llewyrch hynaws hi;
Wedi gwel'd y wawr yn tori
  O gyfeiriad Calfari;
Wedi gwel'd drwy'r bregeth danllyd
  Genadwri fawr ei oes;
Cododd i wynebu bywyd
  O dan Faner wen y Groes.

Gyda'i fadau ar y Gamlas,
  Gyda'i gyfoed yn y fro,
Bu'i gwmniaeth yn rhoi urddas
  Ar lafurwaith lawer tro.
Roedd bywiogrwydd lon'd ei lygad,
  A gonestrwydd lon'd ei wên,
A ffraethineb lon'd ei siarad
  Nas gall deddf ei alw'n hên.

Pa sawl enaid sydd yn cofio,
  Gyda'i ddagrau eto'n lli,
Am y llaw agored hono
  A'r gymwynas ynddi hi?
Ond os yw y llaw yn eisieu,
  A'r cymrodor wedi myn'd;
Aros mae y cymwynasau
  Yn mhrofiadau llawer ffrynd.

Ei fwynhad oedd gwneud daioni
  Yn ei ddull ei hun o hyd;
Er na themtiodd neb i'w foli
  Am gymwynas yn y byd.
Ni ddeisyfai fyn'd i'r cyhoedd
  Os oedd llonder ar ddihun;—
Yn encilion distaw'r nefoedd
  Y dysgyblodd ef ei hun.

Wedi gweled fod milltiroedd
  Cynta'i oes mewn gwaith yn myn'd;
A goreuon yr ardaloedd
  Beunydd yn ei wneyd yn ffrynd,
Daeth i'r Ystrad yn ei gryfder,
  Yn ngwregysau Gras a Ffydd;
A rhodfeydd ei fywyd tyner
  Yn awgrymu gloewach dydd.

I Fodringallt daeth a'u grefydd
  Yn esboniad ar ei lwydd;
Gan fwynhau bendithion newydd
  Ar y daith, o flwydd i flwydd.
Pwy'n ffyddlonach wrth yr Orsedd?
  Pwy'n ddyfalach gyda'r gân?
Pwy'n gynesach ei orfoledd
  Dan gawodau'r bedydd tân?

Cartre'i enaid oedd y Capel
  Ar ei liniau gyda'i Dad;
Gyda'i ffydd yn syllu'n dawel
  Ar benrhynau tecach gwlad.
Colli'r nefoedd ar y ddaear
  Fuasai colli'r breintiau hyn;—
Pwy a wyr sawl awr addolgar
  Gafodd ef i loewi'r glyn?

Dros undonedd yr addoliad
  Taflai ddoniau Cymru Fu;
Dros randiroedd iach ei "brofiad"
  Tyfai blodau'r nef yn llu.
Drwy 'i ddamegion carai ddangos
  Fel bu Cymru gynt yn byw;—
Mae 'i ddonioldeb eto'n aros
  Yn gyfaredd ar ein clyw.

O uchelion y Gwirionedd
  Tynai fywyd yn barhaus;
A thrwy erddi tlysaf Rhinwedd
  Y tywysai ni'n foddhaus.
Profiad wedi dal ei greithiau
  Lechai'n fynych yn ei gôl;
Ond mae cyfoeth ei areithiau
  Eto'n aros ar ei ol.

Ni ryfygai efelychu
  Adlais rhyw athrylith gun;—
Roedd ei dalent wedi 'i magu
  I ddadguddio 'i nerth ei hun.
Torai lwybrau newydd, tawel,
  I negesau goreu'r nef:—
Mae Bodringallt eto'n arddel
  Ei athrylith wreiddiol ef.

Llanwodd swyddi ucha'r Eglwys
  Gydag urddas ar ei waith;
Llanw'r swyddi fu paradwys
  Ei fyfyrion drwy y daith.
Mae croniclau'r Eglwys eto'n
  Cadw'i hanes dan ei fri,
A'n hyfrydwch yw llafurio'n
  Ysbryd ei phrif swyddog hi.

Os yw llais yr hen Gyhoeddwr
  Wedi tewi yn y glyn,
Os yw llaw y doeth Hyfforddwr
  Wedi dianc erbyn hyn,
Mae ei eco eto'n crwydro
  Yn beroriaeth o'r "sêt fawr;"
Ac o hyd mae llaw'n cyfeirio
  Heibio'r bedd a'r "cystudd mawr."

Blaenor o'r duwiolaf deithi
  Dros ei Dduw yn codi 'i lef;
A ffynonau o oleuni
  Beunydd yn ei gamrau ef.
Er fod tòn o ddifrifoldeb
  Yn dwyseiddio'i wedd a'i drem;
Adlais calon lawn o burdeb
  Oedd ei araeth fwyaf llem.

Cerddai'n rhengau yr ieuenctyd,
  Drwy ei ardal yn ddifraw;
A llawryfau goreu'r bywyd
  Yn blodeuo yn ei law.
O! 'roedd cyfoeth yn ei feddwl
  Yn awgrymu mwy o hyd,
Fel y gawod sy'n y cwmwl,
  Heb ddefnynu 'i hun i gyd.

'Roedd goleuni yn ei gyngor
  Yn hyrwyddo'r gwaith ymlaen;
Er ei llymed, anodd hebgor
  Geiriau ei geryddon plaen.
Ni chardottai wên cymydog,
  Ac nid ofnai 'i ŵg ychwaith;—
Cadwai 'i ysbryd yn gyfranog
  O bob gras drwy 'i yrfa faith.

Symledd tawel fu ei dlysni
  Mwyaf yn mhob cwrdd erioed;—
Ni ryfygodd rhagrith sangu
  Haner cam yn ol ei droed.
Dull Cymreig oedd ganddo'n symud,
  Gwisg Gymreig am dano oedd;
Lliw Cymreig oedd ar ei fywyd,
  Tân Cymreig oedd yn ei floedd.

Er na cherddodd drwy winllanau
  Per llenorion gorau'r byd;
Cofiodd gasglu y pwsïau
  Gadwant harddach bri o hyd;
Er na fu cyfrolau'n taflu
  Llewyrch ar ei enaid gwyn,
Gwn mai "Beibl anwyl Iesu"
  Fu ei lamp wrth groesi'r glyn.

Mae ei ddosbeirth aml eto
  Yn ymgynull dan eu clwy;
A phob calon yn adgofio
  Am y llais sy'n ddistaw mwy.
Pwy a wyr sawl erw segur,
  Gerddodd ef o'r "llwybr cul,"
Welir heddyw'n dwyn eu blagur
  Er ei fwyn drwy'r Ysgol sul?

Dan ddylanwad pregeth ddwyfol
  Cymwynaswr Iesu Grist,
Tyfai 'i brofiad yn ysbrydol
  Gerdd, heb ynddi nodyn trist.
Dim ond son am Ben Calfaria
  A'i deffroai drwyddo i gyd;—
Dyna enaid oedd yn gwledda
  Ar fendithion brasa'r byd.

"I Galfaria trof fy wyneb,"—
  Dyna'i emyn anwyl ef;
"Lle mae gras ac anfarwoldeb,"—
  Dyna'i obaith dan y nef.
Ar Galfaria treuliodd oriau
  Godidoca'i fywyd gwyn;—
A blodeuodd ei serchiadau
  Oll o gylch Calfaria fryn.

Yn mhangfeydd ei gystudd olaf
  Roedd ei enaid yn dyheu
Am y fendith sancteiddiolaf,
  Nas gall angau ei dileu:
Yn y glyn yn dal i ddisgwyl,
  Wedi oes o lafur byw,
Y mwynhad ddaw gyda noswyl
  Dangnefeddus gweithiwr Duw.

Tua'r fynwent sydd a'i beddau'n
  Cuddio "anfarwolion" lu,
Crwydro eto mae'n serchiadau
  At ei fedd, dan gwmwl du.
Yn yr "erw" dawel hono,
  Gynt fu'n borth i'r nef ddilen
Huned yntau,—hawdd fu'n gado
  Am y bedd yn y Groeswen.

Tawel huned, hên bererin,
  Wedi gweithio drwy ei oes;
Wedi enill llawer crwydryn
  Pell yn ol i oleu'r Groes.
Pan oedd eira y Nadolig
  Yn mantellu Anian wyw;
Gwelsom ef yn croesi'n ddiddig
  I Nadolig nefoedd Duw.

Gwelsom ddryllio hên gymundeb,
  Gwelsom golli llawer gwledd,
Pan ddaeth ymchwydd oer marwoldeb
  Rhyngom ni a'i dawel wedd.
Gwelwn eto wawrddydd oleu
  Drwy unigedd pell y glyn,
Yn ein gwahodd yn ein dagrau
I gyfeiriad gloewach borau,
  Hyd rhodfeydd ei fywyd gwyn.

"IAITH CALON."

Buddugol yn Eisteddfod Bodringallt,
Nadolig, 1907.

Caxton Press, Howard Street, Treorchy.

XROS 315169

427/6